# Salwch Tymor Hir

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

10 Rhagfyr 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Gynulliad Cenedlaethol Cymru,*

*Cadarnhaodd adroddiad diweddar yn y wasg bod cyrff y sector cyhoeddus yn well am ymdrin â materion salwch tymor hir.*

*A fyddech mor garedig â chadarnhau, ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf:-*

1. *Nifer y gweithwyr sydd wedi cymryd mwy na 4 wythnos o absenoldeb â thâl / tâl salwch mewn blwyddyn ariannol.*
2. *Yr adran, y gyfarwyddiaeth neu'r gwasanaeth y maent yn gweithio.*
3. *Rhyw y gweithwyr.*
4. *Y swm gros o arian, yn hytrach na'r swm net, a dalwyd gan yr awdurdod i bob gweithiwr sydd wedi cymryd 4 wythnos neu ragor o absenoldeb salwch â thâl.*

Atebir eich cwestiynau isod.

1. *Nifer y gweithwyr sydd wedi cymryd mwy na 4 wythnos o absenoldeb salwch â thâl / dâl salwch mewn blwyddyn ariannol.*

| Blwyddyn Ariannol | Nifer y gweithwyr |
|---|---|
| 2013-14 | 23 |
| 2014-15 | 34 |

2. *Yr adran, y gyfarwyddiaeth neu'r gwasanaeth y maent yn gweithio.*
3. *Rhyw y gweithwyr.*


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6455
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru
Buddug.Saer@Assembly.Wales

Gallaf gadarnhau ein bod wedi cael y cais am wybodaeth, fodd bynnag, ni allaf roi ffigur pendant i chi fesul maes gwasanaeth na rhyw y gweithwyr, gan y byddai hynny'n cyfateb i brosesu data personol mewn modd annheg, ac mae wedi'i eithrio o dan adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath, yn fy marn i, yn groes i egwyddorion diogelu data ac, felly, byddai wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i). Gweler yr Atodiad i gael eglurhad llawnach.

4. *Y swm gros o arian, yn hytrach na'r swm net, a dalwyd gan yr awdurdod i bob gweithiwr sydd wedi cymryd 4 wythnos neu ragor o absenoldeb salwch â thâl.*

| Blwyddyn Ariannol | Swm gros a dalwyd |
|---|---|
| 2013-14 | £104,276 |
| 2014-15 | £222,236 |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae eich cais yn gofyn am ddadansoddiad o'n record salwch yn ôl adran, cyfarwyddiaeth neu wasanaeth ac ar gyfer rhyw y gweithwyr hyn. Mae'r wybodaeth hon yn dod o dan y diffiniad o ddata personol yn Neddf Diogelu Data 1998 (DPA), sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'n wybodaeth sydd wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data, yn datgan:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met and, in the case of sensitive personal data, at least one of the conditions in Schedule 3 is also met."

Byddai datgelu'r ffigurau gwirioneddol a'r rhaniad rhyw, yn ein barn ni, yn gyfystyr â phrosesu data personol yn annheg.

Wrth fynd i'r afael â phenderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol y gweithiwr, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r gweithiwr ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Ceir crynodeb o'n trafodaethau isod.

Byddai datgelu dadansoddiad o'n record salwch yn ôl adran, cyfarwyddiaeth neu wasanaeth, a hefyd ar gyfer y ddau ryw o'r gweithwyr hyn yn golygu y byddai modd adnabod yr unigolion. Byddai hon yn wybodaeth am eu bywydau personol, yn benodol am eu hiechyd neu am gyflwr corfforol neu feddyliol, a chaiff ei dynodi fel gwybodaeth bersonol sensitif.
Ni fyddai gan y gweithwyr dan sylw unrhyw ddisgwyliad y byddai gwybodaeth yn ymwneud â'u cofnod salwch yn cael ei rhyddhau. Byddai datgelu'r

wybodaeth yn cael effaith niweidiol ar yr unigolion gan nad oedd disgwyl ymlaen llaw y câi eu manylion personol eu rhoi yn y parth cyhoeddus. Byddai datgelu felly yn ddiangen oherwydd nad oedd y budd o ran datgelu yn gorbwyso'r niwed i'w hawliau, eu rhyddid a'u buddiannau cyfreithlon a byddai, yn ein barn ni, yn cynrychioli ymyrraeth anghyfiawn i breifatrwydd y gweithwyr.

Rydym yn cydnabod bod yna fudd dilys mewn gwybod bod cyrff cyhoeddus yn gwario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn briodol. Fodd bynnag, ein barn yw bod y wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i gwestiwn 1 yn ateb y budd hwnnw i'r cyhoedd.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i ystyried Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Un o'r amodau yn Atodlen 2 yw amod 6, sy'n caniatáu prosesu data personol os:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

1. Mae'n rhaid bod budd cyhoeddus dilys mewn datgelu'r wybodaeth;
2. Mae'n rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; a
3. Rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y gweithiwr.

Fel y nodwyd uchod, er ein bod yn cydnabod budd y cyhoedd mewn gwybod bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth, nid ydym yn derbyn bod y datgeliad yn angenrheidiol i fodloni budd i'r cyhoedd; yn lle hynny, rydym yn teimlo ei fod yn cael ei fodloni'n ddigonol gan y ffigur cyfanswm a ddarperir i chi yn yr ymateb i gwestiwn 1. Felly, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2. Oherwydd hynny, nid wyf wedi mynd ymlaen i ystyried Atodlen 3.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF